

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

MARTHA

Ysgrifennodd MARTHA gerdd rydd yn cyfeirio at deulu yn cael eu gorfodi, oherwydd rhyfel, i ffoi o'u cartref yn Syria 'i loches Lebanon', ac oddi yno i Fanceinion, gan gyrraedd Aberystwyth maes o law. Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau bywyd y ffoaduriaid sydd dan sylw. Mae enghreifftiau o ddelweddu da yn y gerdd, fel y syniad o wnïo palas ag 'edau frau'r gorffennol', ond mae angen mwy o ofal i gynnal yr un ddelwedd drwyddi draw. Er enghraifft, sut mae teulu, sy'n 'ddrudwy', yn 'dyfrio gwreiddiau', yn cynnau cannwyll ac yn dosbarthu blodau? Mae angen caboli ychydig ar rythmau'r gerdd. Un ffordd dda o wneud hynny yw ymarfer ysgrifennu cerddi mewn mydr ac odl cyn mynd ati i ysgrifennu cerddi rhydd, er mwyn mireinio'r glust i 'glywed' rhythm a mydr ac er mwyn cyfarwyddo â gwerth gair mewn llinell. Braidd yn ddisgrifiadol a rhyddieithol yw'r gerdd hon, ond mae iddi rannau da. Dalied ati, gan arfer mwy o ddisgyblaeth y tro nesaf.